TGAU Mathemateg yng Nghymru

Mae dau gymhwyster mathemateg TGAU yng Nghymru – TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd.

Felly, beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau?

- **Mae TGAU Mathemateg-Rhifedd** yn asesu'r fathemateg y bydd dysgwyr yn ei defnyddio yn eu bywydau bob dydd, ym myd gwaith, ac mewn meysydd cyffredinol eraill o'r cwricwlwm.

- **Mae TGAU Mathemateg** yn asesu agweddau ar fathemateg megis algebra, geometreg a thebygolrwydd sydd eu hangen i fynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach.

Mae'r ddau gymhwyster yn cynnig mesur dibynadwy o ddealltwriaeth fathemategol gyffredinol myfyrwyr a'u gallu i ddefnyddio gwahanol dechnegau mathemategol.

Pa gymhwyster y gofynnir amdano gan brifysgolion?

ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222
@cymwysterau_cym

Ar gyfer mynediad i nifer o brifysgolion, mae llawer o gyrsiau fel arfer yn gofyn am radd C o leiaf mewn Mathemateg ar lefel TGAU.

Mewn achosion o'r fath ein cyngor yw bod gradd C naill ai mewn TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-Rhifedd yn briodol am fod y ddau gymhwyster yn rhoi sicrwydd o hyfedredd mathemategol.

Gallai cyrsiau mewn prifysgolion lle mae ffocws mathemategol, technegol neu wyddonol penodol megis Gwyddoniaeth, Peirianneg neu Mathemateg, ofyn am y cymhwyster TGAU Mathemateg.

Mae gwybodaeth bellach am yr arholiadau mathemateg TGAU newydd ar gael ar wefannau Cymwysterau Cymru a CBAC.